# PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, J.E. Charles, H.C. Hamilton ac M.J. Hooper.

668 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

669 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

670 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

671 DIWEDDARIAD BUDDSODDI – CYFLWYNIADAU BUDDSODDI I'W DARPARU YN Y CYFARFOD GAN EVELYN PARTNERS A CCLA (CAC) –

Ar hyn o bryd, mae gan Ymddiriedolaeth Deddf Eglwysi Cymru £1.773m (£1.878m ar 31 Mawrth, 2022) mewn Buddsoddiadau a oedd yn cael eu rheoli yn ôl disgresiwn gan Evelyn Partners (Tilney gynt).

Roedd gan y Comisiwn Elusennau ganllawiau helaeth ar ddyletswydd gofal Ymddiriedolwyr ar gyfer buddsoddiadau gan gynnwys cyfrifoldeb i adolygu trefniadau Rheoli Buddsoddiad a Buddsoddiadau. Yn y cyfarfod ym mis Hydref 2022, cytunodd y Pwyllgor i gysylltu ag Evelyn Partners i asesu addasrwydd a chasglu gwybodaeth bellach am reoli'r farchnad fuddsoddi gymhleth bresennol ac unrhyw drosglwyddiad posibl.

Roedd Link wedi cynnal adolygiad ystadegol a dosbarthu holiaduron i'w cwblhau i restr hir o Gronfeydd Buddsoddi a oedd yn bodloni meini prawf eang Cronfa ar y Cyd a fyddai'n addas ar gyfer Buddsoddiad Elusennol o lai na £2m. Roedd canlyniad yr

adolygiad hwn yn nodi Awdurdodau Lleol, Eglwysi ac Elusennau (CCLA) fel y perfformiwr mwyaf addas yn y dadansoddiad hwn.

Yng nghyd-destun yr amgylchiadau economaidd ansicr presennol, roedd amseru'r cam hwn yn eithaf hanfodol a byddai angen gofyn am gyngor ar amseru unrhyw dynnu o Evelyn Partners ac amseru unrhyw fynediad i fuddsoddiad CCLA.

Rhoddodd cynrychiolwyr o Evelyn Partners, sef David Reed a Richard Stones gyflwyniad i'r Pwyllgor ynghylch eu rheolaeth arian ar gyfer Ystâd Deddf Eglwysi Cymru a oedd yn cael ei fuddsoddi drwy'r cwmni ar hyn o bryd, gan gynnwys cyflwyniad i Evelyn Partners, darlun o symudiadau marchnad cyffredinol a pherfformiad y portffolio a oedd yn cael ei gynnal.

Mewn ymateb i ymholiadau a sylwadau'r Pwyllgor, gwnaeth cynrychiolwyr Evelyn Partners ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Gwnaeth Evelyn Partners gydnabod bod ffocws moesegol y gronfa yn agwedd hollbwysig, ond hefyd y byddai'r cyfyngiadau hyn weithiau'n achosi'r buddsoddiad i danberfformio rhywfaint.
- Roedd y portffolio'n agored i fynegeion yn y FTSE100, felly, er bod rhai cwmnïau, fel y rhai oedd yn ymwneud â gwerthu olew a nwy, wedi'u dewis ar gyfer buddsoddi, ni ellid gwarantu dim amlygiad o gwbl i fusnesau o'r fath trwy gysylltiadau buddsoddi. Fodd bynnag, byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw'r amlygiad hwn cyn lleied â phosibl.
- Gallai'r ymddiriedolwyr fod yn obeithiol bod effeithiau gwaethaf chwyddiant wedi mynd heibio erbyn hyn ac y gallai'r buddsoddiad ddechrau sicrhau'r lefelau incwm nad oeddent yn bosibl yn flaenorol.
- Disgynnodd mandadau moesegol ar raddfa yn ôl y graddau y cafodd buddsoddiadau posib eu sgrinio allan. Roedd rhai cleientiaid angen lefelau uwch o gyfyngiadau na'r gronfa hon, a gallai Evelyn Partners weithio gyda'r Ymddiriedolwyr i gael gwybod lle ar y raddfa y dylid lleoli buddsoddiadau.
- Roedd buddsoddwyr moesegol eraill yn buddsoddi mewn olew a nwy, gyda'r nod o annog y cwmnïau hynny i fuddsoddi mewn newid cadarnhaol, fel cynlluniau ynni gwyrdd.
- Nod Evelyn Partners ar hyn o bryd oedd buddsoddi'n ofalus mewn marchnad anwadal.
- Roedd portffolios a oedd yn cael eu cynnal gydag Evelyn Partners yn cael sgôr o 1 – 7, 1 oedd y mwyaf diogel a 7 yn gweld y risg mwyaf yn cael ei chymryd. Ar hyn o bryd 3 oedd sgôr y portffolio hwn, a ystyriwyd yn risg isel.
- Gallai'r ymddiriedolwyr ddewis symud i ddull risg hyd yn oed yn is er y gallai hyn effeithio'n negyddol ar elw ac incwm, ac efallai na fyddai'r gronfa'n elwa o unrhyw adferiad yn y marchnadoedd. I'r gwrthwyneb, roedd hefyd yr opsiwn i gymryd mwy o risg i geisio enillion uwch.
- Roedd opsiwn hefyd i symud o dderbyn incwm, i dderbyn archeb sefydlog o'r portffolio.

Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg, er y gallai'r buddsoddiad fod wedi creu llai o incwm nag eraill, y gallai'r rheiny y'i cymharwyd â nhw gynnig mwy o dwf cyfalaf i'w hunain ac y gallent fod wedi cymryd mwy o risg.

Wedi hynny, ailadroddodd y Pwyllgor yr angen i fod yn ymwybodol o risgiau ac i fod yn ofalus fel Ymddiriedolwyr y gronfa.  Mynegodd y Cadeirydd ddiddordeb mewn cyflawni portffolio amrywiol, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o offer buddsoddi, a hefyd mewn adennill colledion yn y gronfa.  Mynegodd y Cynghorwyr Champion a Hooper ddewis o ran lleihau amlygiad i fuddsoddi llai moesegol.  Wedi hynny, cytunodd Evelyn Partners i ddarparu gwybodaeth lawn am eu fframwaith moesegol i’r Aelodau.

Fel rhan o'r un eitem ar yr agenda, rhoddwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr o CCLA, sef Antonia Cavalier a Daisy Mannifield, ynglŷn â'r hyn y gallai'r cwmni ei gynnig fel rheolwr amgen ar y buddsoddiad, gan gynnwys trosolwg o'r sefydliad, cronfa buddsoddi moesegol eu helusen, a'r gwasanaeth a gynigir ganddynt.

Mewn ymateb i ymholiadau a sylwadau’r Pwyllgor, gwnaeth y cynrychiolwyr o CCLA ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Roedd CCLA wedi sicrhau twf yn ystod y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf diffyg twf yn y FTSE100 oherwydd eu dull byd-eang, a chyn lleied â phosib o fuddsoddi yn y DU.
- Gellid cyfyngu ar gyfleoedd i fuddsoddi gan ganran eu hincwm sy'n deillio o ffynonellau llai moesegol.
- Roedd safonau gofynnol ar gyfer buddsoddi y bu'n rhaid i fusnesau eu bodloni, gyda gwiriadau cadarn ar gydymffurfio.
- Roedd CCLA wedi'i leoli yn Llundain gyda swyddfeydd lloeren mewn mannau eraill yn y DU.
- Roedd staff yn teithio ledled y wlad i gwrdd â chleientiaid.
- Roedd gan CCLA nifer fawr o fuddsoddwyr bach ac roedd yn gofalu am fuddiannau pawb, waeth beth fo'u maint.
- Byddai portffolio ar faint buddsoddiad presennol Ystâd Deddf Eglwysi  Cymru gyda CCLA yn cynnwys Rheolwr Perthynas Cleientiaid wedi’i neilltuo i'r Ymddiriedolwyr.

Yn dilyn hynny, amlinellodd y Cadeirydd yr opsiynau a oedd ar gael i'r Pwyllgor, sef:

(1) Cadw'r buddsoddiad gydag Evelyn Partners er mwyn osgoi cadarnhau'r colledion i’w cael drwy dynnu’r arian.

(2) Tynnu cronfeydd o Evelyn Partners a'u hail-fuddsoddi gyda CCLA, gyda'r nod o weld enillion uwch a thaliadau is.

(3) Symud cronfeydd o Evelyn Partners i CCLA fesul cam, yn hytrach nag mewn un trafodiad yn cynnwys y swm llawn.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg fod trosglwyddiad fesul cam (Opsiwn 3) yn bosibl, ond bod buddsoddiadau llai o'r fath yn ysgwyddo ffioedd uwch.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper fod y penderfyniad yn ymwneud â hyder ac ymddiriedaeth.  Roedd angen i'r Pwyllgor ymddiried yn Evelyn Partners i adennill colledion a gafwyd os oedd yn cadw buddsoddiad gyda nhw.  Dywedodd y Cynghorydd Hooper fod CCLA yn ei farn ef wedi ateb y cwestiynau hanfodol a

ofynnwyd gan y Pwyllgor yn dda, a gwnaeth gynnig bod yr Ymddiriedolwyr yn crisialu'r colledion a gafwyd ac yn symud yr holl gronfeydd i CCLA.

Cynigiodd y Cynghorydd Charles fod yr Ymddiriedolwyr yn dewis cadw'r buddsoddiad gydag Evelyn Partners a monitro sut roedd y portffolio'n perfformio.

Dywedodd y Cynghorydd Hamilton hefyd mai ei ddewis oedd bod y buddsoddiad yn parhau gydag Evelyn Partners, o ystyried yr ansicrwydd yn y marchnadoedd a'r costau sydd ynghlwm â symud cronfeydd yn raddol i CCLA.

Eiliodd y Cynghorydd Champion gynnig y Cynghorydd Hooper, gan ychwanegu bod dull byd-eang CCLA yn drawiadol.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Drake, dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg fod opsiwn i ohirio penderfyniad pe bai'r Ymddiriedolwyr yn dymuno hynny, ac y gellid adolygu penderfyniad i gadw'r buddsoddiad gydag Evelyn Partners ar unrhyw adeg.

Ailadroddodd y Cynghorydd Hooper fod costau'n gysylltiedig â chadw'r buddsoddiad gydag Evelyn Partners, ac ychwanegodd fod ffocws CCLA ar fuddsoddi o'r 'gwaelod i fyny', ac ar faterion fel iechyd meddwl yn y gweithle, yn gymeradwy. Ystyriodd fod CCLA yn ymddangos yn fwy blaengar nag Evelyn Partners, a oedd wedi cael y cyfle i fynd i'r afael â materion o'r fath, ond nad oeddent wedi gwneud hynny.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn a chael ei roi i bleidlais y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Buddsoddiadau a reolir ar hyn o bryd gan Evelyn Partners ar gyfer Ystad Deddf Degwm yn cael eu tynnu'n ôl a'u hail-fuddsoddi gyda CCLA.

(2) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid, er mwyn paratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol mewn perthynas â Phenderfyniad (1) uchod.

(3) Y dylid gofyn i'r Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg gysylltu â CCLA am ragor o wybodaeth ynghylch agweddau iechyd meddwl yn y gweithle, mynediad i'w gweminar a gwybodaeth seminar, a'u gwahodd i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor ymhen 6 mis.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Rhoi sylw i rwymedigaethau'r Ymddiriedolwyr i adolygu Buddsoddiadau Ystad Deddf Degwm Bro Morgannwg yn rheolaidd, a chyda'r nod o geisio enillion uwch ar fuddsoddiadau a ffioedd is.

(2) Darparu awdurdod dirprwyedig er mwyn i'r ddogfennaeth angenrheidiol gael ei gweithredu.

(3) Hysbysu’r Pwyllgor ymhellach am waith CCLA a chael ei ddiweddaru ganddynt ar drosglwyddo buddsoddiadau a pherfformiad hyd at y pwynt hwnnw.

672 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2021/22 AC ARCHWILIAD ANNIBYNNOL (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg, a dywedodd y Pwyllgor y canlynol:

Roedd yr Archwiliad Annibynnol o Gyfrifon Deddf Eglwysi Cymru bellach wedi’i gwblhau.

Bu un mân newid naratif i'r cyfrifon a gyflwynwyd ym mis Hydref 2022.

Wedi cael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor, byddai Cyfrifon Eglwysi Cymru yn cael eu llofnodi gan Archwilio Cymru a'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

Gwerth net y gronfa ar 31 Mawrth 2022 oedd £5.255m a oedd yn gynnydd o £21k o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn ystod 2021/22 roedd gwarged o £4k yn erbyn cronfeydd anghyfyngedig.

Roedd y dyraniad grantiau yn £46k yn ystod y flwyddyn a dyrannwyd £41k yn ystod y flwyddyn gyda £5k yn cael ei gario ymlaen i'w ddyrannu yn 2022/23.

Gwerth buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1.878m.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2022 wedi’u cymeradwyo gan yr archwilydd allanol, heb unrhyw newidiadau mawr angenrheidiol.

Cynigiodd y Cynghorydd Hooper fod y cyfrifon yn cael eu derbyn a bod y Cadeirydd yn cael ei awdurdodi i lofnodi'r rhain fel rhai sydd wedi’u cymeradwyo.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22 fel y’u nodir yn Atodiad A i’r adroddiad ac awdurdodi’r Cadeirydd i’w lofnodi ar ran yr Ymddiriedolwyr.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.